




more maths grads

multiplying opportunities



Cyflenwi mwy o raddedigion gwyddorau mathemategol

more maths grads

prosiect tair blynedd yw *more maths grads* sydd â'r nod o allu sicrhau bod gan y DU y sgiliau mathemategol sydd eu hangen arni i'r dyfodol. Fe'i hariennir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr a chafodd ei lansio yn 2007



Am y prosiect

Mae *more maths grads* yn datblygu, treialu a gwerthuso ffyrdd o gynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n astudio pynciau ag elfen sylweddol o fathemateg yn y brifysgol. Mae'n arbennig o awyddus i annog dysgwyr sy'n dod o gefndiroedd nad ydynt wedi cael eu cynrychioli'n dda yn draddodiadol mewn addysg uwch i fynd ymlaen ac astudio mathemateg:

- menywod
- grwpiau Du Affricanaidd, Du Caribiaidd, Pacistanaidd a Bangladeshaidd
- dysgwyr o oedolion sy'n dychwelyd i astudio mathemateg, yn enwedig yn rhan amser
- grwpiau economaidd gymdeithasol is

Mae'r prosiect wedi'i leoli ym Mhrifysgol Birmingham. Mae tair canolfan beilot ranbarthol mewn prifysgolion sy'n adlewyrchu'r boblogaeth amrywiol mae *more maths grads* yn ceisio eu cyrraedd:

- Swydd Efrog a Humberside (Prifysgol Leeds)
- Gorllewin Canolbarth Lloegr (Prifysgol Coventry)
- Dwyrain Llundain (Queen Mary, Prifysgol Llundain)


Mae pob canolfan ranbarthol yn gweithio mewn partneriaeth agos ag ysgolion, colegau, cyflogwyr a gwasanaethau gyrfaoedd lleol. Mae'n cynnal digwyddiadau i fyfyrwyr ac athrawon, creu adnoddau i'r ystafell ddosbarth a chanolfannau gyrfaoedd ac adeiladu cysylltiadau â chyflogwyr yn eu rhanbarthau.

Ydy mathemateg ein prifysgolion yn iawn?

Mae cangen arall o'r prosiect wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Sheffield Hallam. Mae'n adolygu cynnwys a dulliau addysgu mathemateg ym mhrifysgolion y DU. Yna, bydd yn argymhell ffyrdd o ddiweddarau'r rhain er mwyn sicrhau bod ystod eang o fyfyrwyr a chyflogwyr yn cael y gorau o gyrsiau mathemateg prifysgolion.

Yn helpu athrawon i fwynhau dysgu

Mae *more maths grads* yn gweithio gyda'r athrawon mewn ysgolion a cholegau sy'n bartneriaid i gefnogi eu gwaith. Mae eisiau helpu athrawon i fwynhau eu dysgu fel eu bod nhw yn eu tro yn gallu codi dyheadau a lefelau cyrhaeddiad eu myfyrwyr.



Yn gofyn 'pam astudio mathemateg?'

Mae *more maths grads* eisiau gwneud mathemateg yn fwy o hwyl. Mae'n gweithio'n agos ag ysgolion a cholegau i helpu myfyrwyr i ddeall pam maen nhw'n astudio mathemateg. Mae gweithdai yn edrych ar gymhwyso mathemateg a chyflwyno ffyrdd newydd a hwylus o edrych ar fathemateg i fyfyrwyr. Y prif amcanion yw gwella hyder myfyrwyr a sicrhau eu bod yn gwireddu eu potensial.

Mae'r prosiect yn annog myfyrwyr i fynd â'u hastudiaeth o fathemateg i lefel uwch, hyd yn oed y rhai na chawson nhw'r graddau uchaf mewn TGAU. Mae'n sicrhau bod pob myfyrwr yn dod i wybod am yr opsiynau sydd ar gael iddyn nhw mewn mathemateg.

Yn dangos bod mathemateg yn agor drŷsau

Mae *more maths grads* yn ceisio dangos i fyfyrwyr pa mor ddefnyddiol y gall mathemateg fod wrth geisio gwneud penderfyniadau am yrfaeod. Mae'n

cynhyrchu deunyddiau sy'n amlygu'r gyrfaeod amrywiol a boddhaus sydd wedi'u seilio ar fathemateg. Mae'r prosiect yn gweithio gyda gwasanaethau cynghori gyrfaeod a chyflogwyr i sicrhau bod myfyrwyr ac athrawon yn derbyn yr wybodaeth fwyaf diweddar sydd ar gael.

Mae'r rhan yma o'r prosiect yn gweithio gyda'r Cyngor Gwyddorau Mathemategol, sy'n rhedeg y wefan www.mathscareers.org.uk.

Manteision ehangach

Nid adrannau mathemateg prifysgolion yn unig fydd yn profi manteision y prosiect. Trwy annog mwy o fyfyrwyr i barhau â mathemateg i lefel A (neu lefel gyfatebol), gobaith *more maths grads* yw gwella cyflawniadau myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau gwyddoniaeth, technoleg neu beirianneg eraill yn y brifysgol.

Hefyd, bydd cynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n astudio mathemateg yn y brifysgol yn helpu i sicrhau bod mathemateg yn aros yn bwnc cynaliadwy. Gyda mwy o raddedigion mathemateg, mae cyflenwad ehangach o ddarpar athrawon mathemateg ar gyfer y dyfodol.



more maths grads

multiplying opportunities

Pwysu'n rhan?

Cydweithrediad yw *more maths grads* rhwng:

- Penaethiaid Adrannau Gwyddorau Mathemategol
- Y Sefydliad Mathemateg a'i Chymwysiadau
- Cymdeithas Fathemategol Llundain
- Y Rhwydwaith Mathemateg, Ystadegau ac Ymchwil Weithrediadol, Academi Addysg Uwch
- y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol

Ariennir *more maths grads* gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr ac mae'n rhedeg o 2007 i 2010. Yna, mae'r prosiect yn gobeithio ehangu i gynnwys mwy o ranbarthau.

Mae'r cyflogwyr sydd eisoes yn gweithio gyda *more maths grads* yn cynnwys:

- Coca Cola Enterprises
- Jaguar
- KPMG
- Rolls Royce ccc

Mae'r prosiect bob amser yn edrych am bartneriaid diwydiannol eraill – cysylltwch â'r rheolwr prosiect am fwy o fanylion.

Design: info@jamesanthonygraphics.com Reorder: sales@highfieldprint.co.uk

Manylion cyswllt

Rheolwr Prosiect: Makhan Singh
E-bost: m.singh.1@bham.ac.uk
Swyddfa: 0121 414 8798

Symudol: 07900 137488
Ymwelwch â gwefan y prosiect am fanylion cyswllt
rhanbarthol: www.moremathsgrads.org.uk

hefcw